# Ydy sgrinio'r fron yn iawn i chi?



Gofynnwch i aelod o staff eich helpu i ddeall yr wybodaeth hon.




Eich dewis chi yw cael prawf y fron.



Y ffordd orau o chwilio am ganser y fron yw drwy gael prawf pelydr-X.

Mae hwn yn cael ei alw yn **sgrinio'r** fron.



Gallwch deimlo'n iawn a dal i gael canser y fron.

Mae profion y fron yn gallu ffeindio canser y fron nad ydych chi'n gallu ei weld na'i deimlo.



Os byddwn ni'n ffeindio canser y fron yn gynnar, mae'n haws ei drin.



Mae sgrinio'r fron yn arbed bywydau.



Gallwch chi siarad ag aelod o staff os ydych chi’n poeni.



Gall rhai deimlo bod cael y prawf yn boenus.

Ni ddylai’r boen bara’n hir.



Mae sgrinio’r fron yn ddiogel i’r rhan fwyaf o bobl.

Mae siawns fach y gall cael pelydr-X achosi canser.





Dylech chi ddweud wrthom ni os ydych chi wedi cael pelydr-X o’r fron yn ystod y **6 mis diwethaf.**



Rydyn ni’n cynnig trin pob math o ganser.

Mae’n bosibl y byddwch chi’n cael triniaeth ar gyfer canser nad yw’n un difrifol.



Nid yw prawf sgrinio’r fron yn ffeindio pob math o ganser y fron.

Nid yw cael prawf sgrinio yn eich atal rhag cael canser y fron.



Siaradwch â’ch meddyg os byddwch chi’n gweld neu’n teimlo newid yn eich bronnau.

Mae’n bwysig hyd yn oed os ydych chi wedi cael eich sgrinio.